Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 463 MAWRTH 2024 | AM DDIM

## CÂN I GYMRU'N LLENWI'R ARENA

-HEINI GRUFFUDD

Daeth mil i Arena Abertawe i fwynhau Cân i Gymru – tipyn mwy na'r 150 yn Aberystwyth y llynedd.
Cafwyd cynhyrchiad tra phroffesiynol a gwledd o ganu, a doniau ifanc, disglair, newydd yn dod i'r brig. Sara Davies o Fae Colwyn enillodd. Mae hi'n athrawes y celfyddydau mynegiannol yn Ysgol Tregaron, a daeth â chefnogwyr brwd o'r ysgol gyda hi, a'i theulu hefyd, a oedd yn cynnwys ei nain. Cân deimladwy am ei thaid, wedi'i chanu ganddi yn ei llais cyfoethog, enillodd y wobr a £5,000 iddi.
Unig wendid y noson, mae'n debyg, oedd bod cannoedd wedi methu pleidleisio ar eu ffonau.




## CANU DEWI SANT YN YR AMGUEDDFA

-DAFYDD WILLIAMS

Daeth tyrfa fawr i glywed Côr Adran Argyfwng Ysbyty Treforys ganu wrth Fore Goffi Dydd Gŵyl Dewi blynyddol Amgueddfa Abertawe.

Trefnwyd y bore gan Sefydliad Brenhinol De Cymru, yr RISW, corff a sefydlwyd yn 1835 i hyrwyddo gwybodaeth ac a adeiladodd yr Amgueddfa rai blynyddoedd wedyn.

Mae'r Sefydliad bellach yn gweithredu fel Cyfeillion Amgueddfa Abertawe ac yn prysur gymreigio! Mae croeso cynnes i aelodau newydd - cewch fanylion pellach ar www.risw.org.uk



## DAU BRIFARDD YN SGWRSIO GYDA CHYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

- GARETH RICHARDS

Dau Brifardd Treforys oedd yn sgyrsio yng nghyfarfod Chwefror o'r Gymdeithas. Bu Robat Powell yn holi Alan Llwyd, Bardd Gadeiriol Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Boduan, 2023.
Gwyddom am Alan fel bardd a llenor cynhyrchiol iawn. Ef yw'r cyntaf i ennill tair cadair eisteddfodol yn y cyfnod diweddar ynghyd â chadair hardd Caerwys (awdl i ddathlu 500 mlynedd o grefft Cerdd Dafod) ddiwedd llynedd. Mae hefyd yn awdur a golygydd 300 o gyfrolau a chofiadur rhai o gewri ein llen: R. Williams Parry, Kate Roberts, Gwenallt a Waldo ynghyd â sgriptiwr y ffilm 'Hedd Wyn', 1992. Mae hefyd yn olygydd amser-llawn Barddas. Enillodd gaderiau eisteddfodol Rhuthun, 1973 ac Aberteifi, 1976.
Yr hyn oedd yn amlwg oedd bod gan Robat ac Alan gefndiroedd gwahanol. I'r ddau begwn; Robat o Lyn Ebwy, diwydiannol, di-Gymraeg y Cymoedd ac Alan o Ben Llŷn, gwledig, hollol Gymraeg a Chymreig ei ddiwylliant. Soniodd Alan am ei fagwrfa ar fferm ger Cilan a'r dylanwadau arno gan y gymdogaeth ac athrawon dylanwadol.
Ar ôl cwrdd a phriodi Janice treuliodd gyfnod yn y Felindre ac yn fwy diweddar ar waelod Heol Pentrepoeth, Treforys, a magu dau mab.
Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 14 Mawrth pan fydd rhai aelodau yn sôn am eu profiadau.



## CYNGERDD YNG NGHAPEL Y NANT

-HEINI GRUFFUDD

Dathlwyd Gŵyl Ddewi'n gynnar yng Nghapel y Nant, Clydach, gyda chyngerdd yng nghwmni Côr Tŷ Tawe.
Arweiniodd Bethan Wynne Phillips y côr a'r gynulleidfa o'r piano. Canodd y côr wyth o eitemau a chafwyd eitemau ar offerynnau cerdd gan Llywelyn Gannon.
Adroddwyd Hon ac araith Emrys gan Catrin Alun a Linda Williams, a Bill Gannon oedd yr unawdydd yn Dal Fi'n Dynn.
Canodd y côr ddwy o weithiau Karl Jenkins, a gorffennwyd gyda Finlandia a Hafan Gobaith.
Codwyd £300 i elusennau Capel y Nant.



## NOSON BRAF YN NHŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Dathlodd Côr Tŷ Tawe Ŵyl Ddewi mewn hwyl, gyda rhaglen o ganeuon hwyliog a danteithion. Dyma ail gyngerdd Gŵyl Ddewi'r côr eleni.



## GRŴP SGWRSIO PONTARDDULAIS

-MICHAEL WILLIAMS

Y grŵp sgwrs yng Nghapel Hope-Siloh, Pontarddulais yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Pawb wedi cyfansoddi limrig, wedyn cwis, canu a phicau ar y maen. Yn cyfarfod ar ddydd Llun 1af a 3ydd pob mis am 10yb



## CYFROL NEWYDD ROBAT

Daeth cynulleidfa wresog ynghyd yng Nghapel y Nant nos Fercher, 13 Mawrth i lansio Tymor Da, cyfrol ddiweddaraf y Prifardd Robat Powell, gydag eitemau o gerddoriaeth, a chyfweliad gan Aneirin Karadog â'r prifardd ei hun.
Mae'n gyfrol swmpus 200 tudalen sy'n ffrwyth awen Robat Powell rhwng 1996 a 2023. Mae cynnwys y cerddi'n adlewyrchu diddordebau Robat Powell, a'r materion sy'n ei gynhyrfu neu yn ei ddigio, a hefyd yn cynhesu ei galon.




Mae saith adran i'r gyfrol. Y gyntaf yw 'Cymrwn nerth o'n Cymru ni' lle mae cerddi'n ymwneud â'r Gymraeg, Cymru a sefydliadau Cymru. Yma, ceir sawl cywydd croeso o ddiddordeb i ddarllenwyr Wilia, er enghraifft, cerddi i ddathlu pen-blwydd Ysgol Bryn-y-môr yn 25 oed ac Ysgol Lôn Las yn 60 oed, Canolfan Tŷ Tawe yn 30 oed, a cherdd i ddathlu sefydlu Ysgol Tan-y-lan, Treforys.
Mae yma gerddi tyner i sawl aelod o'r teulu yn yr adran 'Cangen onnen ydwyf i ...' a diddordeb y prifardd mewn chwaraeon sy'n cael sylw'r drydedd adran 'Yn y bêl daeth gwib alaw ...'. Cerddi i unigolion sydd yn yr adran 'Oedwn awr gyda'n harwyr' ac mae'r rhai o ddiddordeb lleol yn cynnwys cywydd i Gyfarch y Prifardd Dafydd Rolant yn Archdderwydd, 1996; cerdd i gyfarch John Evans, Clydach, yn 80 oed, a cherdd ar achlysur Priodas Aur John a Brenda Evans, englynion i gofio Dr John Davies, Abertawe, y Parchedig Derwyn Morris Jones a Dr Charlotte Davies, a chywydd er cof am Ann Rosser, Llansamlet. Mae yma gywydd trawiadol hefyd i Helen Prosser a fu'n cynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn Adran Addysg Barhaus i Oedolion Prifysgol Abertawe am gyfnod.
Cerddi natur hyfryd iawn sydd yn yr adran 'Golau maes, treigl y misoedd ...' ac yn yr adran 'Mae gorwel hwnt i'm gweryd ...' mae cerddi wedi'u hysbrydoli gan ddigwyddiadau a theithiau amrywiol gan gynnwys Cywydd Brecsit, Cytundeb Gwener y Groglith, Bwthyn Padraig Pearse, Beddau'r Gymanwlad, Bayeux, Newid hinsawdd, Nyrs Covid ac ati. Mae'r adran olaf 'Anhraethadwy, mwy na mi ...' yn ymdrin â chred grefyddol Gristnogol y prifardd ac ystyriaethau athronyddol mewn cerddi fel Credo, Y Cymun, Gweddi a Dewi Sant.
Dyma gyfrol a ddylai ddenu prynwyr o bob rhan o Gymru ac mae o ddiddordeb arbennig i'r rhai sydd â chysylltiad ag Abertawe a Chwm Tawe. Mae ffotograff Iestyn Hughes ar y clawr yn adlewyrchu ysbrydoliaeth y prifardd yng nghymoedd ôl-ddiwydiannol y De. Cyhoeddwyd hi gan Gyhoeddiadau Barddas a'i phris yw £8.95.

## BRETHYN CARTREF TREFORYS
-GARETH RICHARDS

Noson yng nghwmni'r aelodau a gafwyd ganol Mawrth, a sdim byd gwell na chlywed ambell stori leol. Cawsom gan Aldyth Williams wers ddaeareg ar y modd y ffurfiwyd Cwm Tawe. Esboniwyd mai canlyniad Oes yr Iâ oedd creu gorchudd trwchus o eira ac iâ ar ein mynyddoedd a symudiad y llif iâ yma tua'r môr grafodd ochrau a gwaelodion y cwm a chreu siâp U iddo. Wrth i'r rhewlif ddadlaith gollyngwyd yr holl waddodion (cerrig a phridd) a chreu bryniau isel. Ceir esiampl berffaith o hyn ar y Garth, ger y Glais a daw daearegwyr o bob man i astudio'r safle.

Nest Davies, yr Allt-wen soniodd am rai o enwogion y sgrin fawr a welodd flynyddoedd yn ôl. Tra ar ymweliad teuluol ag ymylon Llundain yn y 1951 aeth y teulu i ymweld â maes rasio ceffylau Epsom a phwy oedd yno yn ymarfer ar gyfer ffilm 'Derby Day' ond Anna Neagle a Michael Wilding, actorion mwya'u cyfnod. Brasgamodd Nest gyda darn o bapur a chasglu eu llofnodion.

Rhai blynyddoedd y ddiweddarach, ym 1956 tra ar ymweliad â Llundain aeth Nest a'i ffrind i siop ddillad Jaeger a phwy oedd yn digwydd bod yn yr un 'lifft' oedd Marliyn Monroe a'i gŵr Arthur Miller, y dramodydd. Sylwodd Nest ar ei phrydferthwch er i'r gwyliwr diogelwch ceisio ei chadw draw!

Yr olaf o'r tair oedd Siân Phillips, er mai Ailwen oedd ei henw pan yn ferch ifanc ar yr Allt-wen. Arferai alw yng nghartre' Nest a'i brawd Gareth bob bore, ar ei ffordd i Ysgol y Rhos. Dangoswyd llun ohoni a Margaret Jones yn chwarae doli nôl yn y 40au.

I ddiweddu'r noson cyflwynodd Robat Powell ambell gerdd. Cyhoeddwyd ei gyfrol newydd o gerddi a ysgrifennwyd rhwng 1996-2023 ym Mawrth a darllenodd ambell ddarn gydag esboniad o'u cefndir. Mae Robat yn cyfaddef mai "un o Dreforys" yw ef bellach, er yn wreiddiol o Lyn Ebwy ac mae'r ysbrydoliaeth yn codi o gymoedd diwydiannol y de. Treuliodd dros 50 mlynedd yma yng Nghwm Tawe a chofnodir ymysg y casgliad nifer o gerddi am yr ardal a'i chymeriadau.

Mae saith adran y gyfrol, a'r cyfan yn adlwyrchu hoffter a chariad y bardd at ei gynefin yng nghymoedd diwydiannol neu ôl-ddiwydiannol y de, Cymru a'r Gymraeg, ei deulu, chwaraeon, unigolion y mae'n eu parchu a threigl y flwyddyn. Yn y ddwy adran olaf cawn ymdriniaeth o wahanol destunau: o gariad coll a rhyfel i newid hinsawdd a chrefydd. Mae pob un o gerddi Tymor Da yn taro deuddeg o ran ei thestun a'i hymdriniaeth.

Diolchwyd i David Gwyn John am ei wasanaeth i'r Gymdeithas ers nifer o flynyddoedd. Mae'n parhau fel Ysgrifennydd ond yn trosglwyddo'r Gadeiryddiaeth i'r Parchg Eirian Wyn a daw Aldyth Williams i swydd yr Is-gadeirydd. Alun Owen yw'r Trysorydd dibynadwy.

Cyfarfod nesaf : Iwan Griffiths, Cyflwynydd a Newyddiadurwr, Adran Newyddion BBC Cymru, Caerdydd. Nos Iau, 18 Ebrill, Festri Seion Newydd, Treforys, SA6 8EB am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.



## MYFYRWYR DRAMA - CYFLE I ENNILL YSGOLORIAETH
-GERAINT DAVIES

Mae Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe yn cynnig ysgoloriaeth am flwyddyn i unigolion dros 18 oed (ar 1 Medi 2024) sydd am ddilyn cwrs yn un o ddisgyblaethau'r ddrama (perfformio, cyfarwyddo, sgriptio ac ati). Eleni, mae'r ysgoloriaeth yn werth £2,500.

Ers sefydlu'r cynllun yn 2014, mae pedair ar ddeg o ysgoloriaethau wedi'u rhoi, gyda nifer o gyn-enillwyr bellach yn gwneud eu marc ym myd y ddrama a'r cyfryngau. Mae cyn-enillwyr yn cynnwys Sioned Dafydd (gohebydd a chyflwynydd chwaraeon), Heledd Roberts (Rownd a Rownd), Euros Llŷr Morgan (sefydlydd y cwmni cynhyrchu Carlam) a Samuel Morgan Davies (Yr Amgueddfa, Craith)

Gweinyddir y broses o wobrwyo'r ysgoloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ysgrifenedig trwy ffurflen gais yn y lle cyntaf ac yna mewn cyfweliad i'r rhai sy'n cyrraedd rhestr fer.

Am ffurflen gais a/neu fanylion pellach, cysyllter â post@dramaabertawe.com

Mae yna dudalen ar facebook hefyd i hybu'r ysgoloriaeth, sef www.facebook.com/dramaabertawe/ sy'n cynnwys mwy o fanylion a gwybodaeth am enillwyr y gorffennol.

Y dyddiad cau am geisiadau yw 30 Mehefin 2024.

CYMDEITHAS Y DDRAMA GYMRAEG
1919 2019
ABERTAWE

## SEREMONI GADEIRIO YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Eleni, unwaith eto, cynhaliwyd dwy Seremoni Gadeirio fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Cynhaliwyd Seremoni i fl.7-9 ddydd Iau a Seremoni Gadeirio i fl.10-13 ddydd Gwener.
Trosglwyddwyd yr awenau yn ôl yr arfer i rai o brif swyddogion yr ysgol, sef Jonah Eccott, Nataya Lewis, Steffan Thomas a Evie Harris.
Eleni, Bethany Lewis, cyn-ddisgybl i'r ysgol, oedd y beirniad ar gyfer Cadair Bl.7-9 ac Elin Meek yn beirniadu'r Gadair hŷn. Diolchwn iddynti am eu holl waith wrth feirniadu.
Roedd 'Gwanwyn, yn Mawr' wedi plesio'r beirniad yn fawr a phleser oedd gweld Jonah Eccott o Flwyddyn 13 yn codi o'i sedd yng nghefn y neuadd i dderbyn y fraint o fod yn brif lenor yr ysgol eleni! Cafodd gymeradwyaeth wresog gan ddisgyblion hŷn yr ysgol. Llongyfarchiadau enfawr iddo. Yn ail am y gadair hŷn oedd Grace Browne o flwyddyn 13 ac yn drydydd oedd Callie Davies o flwyddyn 12!
Yn ein Seremoni blwyddyn 7-9, hyfryd oedd gweld 'Lolipop', sef Lola-Mai Reynolds-Berry o flwyddyn 7 yn codi ar ei thraed. Yn ail oedd Joshua Crocombe-Gooch o fl.9 ac yn drydydd oedd Tirion Clarke o flwyddyn 9.
Hoffai'r Adran Gymraeg ddiolch yn fawr i bawb a gystadlodd ac yn arbennig i'r staff a'r disgyblion a fu'n rhan o'r seremoni- yn enwedig Keira Hopkins ac Evie Barr am ganu cân y cadeirio, i Arwen Garland am gyfeilio ar y delyn, Llywelyn Gannon am ganu'r ffanffer, a Grace, Jacob, Nataya ac Olivia am gyrchu'r buddugol. Hyfryd hefyd oedd gweld cynrychiolwyr o bob blwyddyn ar y llwyfan a hwythau wedi'u dewis am ymrwymiad i Gymreictod yn yr ysgol.
Llongyfarchiadau hefyd i Jacob Elsey o'r Chweched am ennill y Tlws Saesneg hŷn a Lottie Allen o fl.8 am ennill y tlws iau.
Hyfryd oedd croesawu dau Lywodraethwr ar gyfer y Seremoni hŷn, sef Mr Heini Gruffudd a Mrs Margaret Greenway.





## DIWRNOD Y LLYFR YM MRYN TAWE

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr eleni, aeth criw o fl.9 Bryn Tawe i ddarllen gyda holl ysgolion cynradd ein clwstwr- Y Cwm, Lon Las, Gellionnen, Tirdeunaw a Tan-y-Lan. Cynhaliwyd gwasanaeth Diwrnod y Llyfr i bawb ym Mryn Tawe yn ystod yr wythnos, bore coffi pan groesawyd Siop Tŷ Tawe i werthu llyfrau Cymraeg a chynhaliwyd gweithgareddau hwylus eraill megis cwis, dylunio cloriau newydd i lyfrau a chyflwyno llyfr mewn bocs esgidiau! Gobeithio i bawb gael eu hatgoffa o'r mwynhad sydd i'w gael o ddarllen llyfrau.





## DADLAU TU HWNT I GLAWDD OFFA

-RHODRI EVANS, YSGOL GYFUN GŴYR

Ym mis Mawrth eleni, aeth pedwar o ddisgyblion Bwyddyn 9 Ysgol Gyfun Gwyr i Goleg yr Iesu, Rhydychen ar gyfer cystadleuaeth ddadlau cenedlaethol a drefnwyd gan Rwydwaith Seren. Roedd y disgyblion yn cynrychioli Abertawe, wedi iddynt faeddu ysgolion uwchradd lleol yn y rowndiau rhanbarthol yn Neuadd Sgeti ym mis Ionawr.
Bu'r disgyblion yn dadlau ar ffurf 'mace', lle rhoddir y cynnig iddynt ddeugain munud cyn y gystadleuaeth. Roedd rhaid iddynt drafod y pwnc am ugain munud, gan herio a chynnig gwrth-ddadleuon a phwyntiau gwybodaeth ynglyn a sylwadau eu gwrthwynebwyr. Trefnwyr y gystadleuaeth a benderfynodd a oedd y timau o blaid neu yn erbyn y cynigion.
Tra'n aros yng Ngholeg yr Iesu, bu'n rhaid iddynt ddadlau am bynciau dadleuol megis "Cred y Ty hwn y byddai Deallusrwydd Ffug yn cynnig gwell addysg nag athrawon" a "Cred y Ty hwn fod meddygon yn llawn haeddu codiad cyflog o 30%." Roedd y pynciau yn rhai cyfoes a'r dadlau'n frwd! Siaradodd yr holl ddisgyblion yn hyderus, yn huawdl ac yn aeddfed tu hwnt, gan ddatblygu sgiliau a fydd yn fuddiol iddynt gydol oes.
Daeth y tîm yn ail o holl ysgolion Cymru, gan ennill tarian wydr hyfryd. Llongyfarchiadau gwresog i Tomos, Polly, Bethan a Charlotte ar eu llwyddiant



## SIOE BUDDUG - BRENHINES Y BRWYDRO

Dewch i weld sioe newydd Mewn Cymeriad, 'Buddug - Brenhines y Brwydro', yn Nhŷ Tawe dros wyliau'r Pasg!
Ebrill 2il am 11yb. Tocynnau'n £5 i oedolion, £3 i blant - www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe







## CAFFI CYMRAEG LLYS NINI

Mae criw yn cyfarfod yng Nghaffi Nini ar safle Canolfan Anifeiliad Llys Nini ym Mhenllergaer pob ail ddydd Mercher y mis rhwng 11yb a 12yh er mwyn sgwrsio yn Gymraeg ac ymarfer yr iaith. Croeso mawr i siaradwyr o bob lefel a chroeso hefyd i chi ddod a'ch ci os oes un gyda chi!

## COFFI A CHLONC YN NHŶ TAWE

Galwch draw i Dŷ Tawe bob bore dydd Iau, 10:30yb - 12yh am sesiwn sgwrsio anffurfiol. Cyfle perffaith i ymarfer dy Gymraeg dros baned gyda siaradwyr newydd eraill. Croeso mawr i siaradwyr o bob lefel.




## ORIAU NEWYDD SIOP TŶ TAWE

Bydd y siop nawr ar agor rhwng 10:00-13:00 ar ddydd Sadwrn. Mae amseroedd yr wythnos yn aros yr un peth!




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

02.04 - Sioe Mewn Cymerad: Buddug (Tŷ Tawe)

11.04 - NAWR: Accü + Evolution Of Beauty + Warm Leveret (Tŷ Tawe)

12.04 - Lowri Evans + Cynefin (Tŷ Tawe)

19.04 - Carwyn Ellis (Tŷ Tawe)

03.05 - Pys Melyn (Tŷ Tawe)


08.06 - Gŵyl Tawe (Amgueddfa'r Glannau)

09.06 - Parti Cloi Gŵyl Tawe: Melin Melyn (The Bunkhouse)













Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mawrth.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Ebrill erbyn Ebrill 15fed trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

08.06.24

ABERTAWE

# GŴYL TAWE

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU
NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
10:00–21:00

**BITW** ✱ **BREICHIAU HIR**

**CI GOFOD** ✱ **HMS MORRIS**

**KIM HON** ✱ **MELLT**

**N'FAMADY KOUYATÉ**

**PARISA FOULADI** ✱ **WORLDCUB**

PARTI CLOI: **MELIN MELYN**

THE BUNKHOUSE NOS SUL 09.6.24 / £10

YSGOLION ABERTAWE

FAMILIA DE LA NOCHE
(SIOE THEATR I BLANT A THEULUOEDD)

GWEITHDAI CELF ORIELODL

THE BUNKHOUSE BAR & MUSIC VENUE
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Waterfront Museum
Cyngor Abertawe Swansea Council
Coleg Gŵyr Abertawe Gower College Swansea
menter iaith abertawe